




Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Beth rydw i wedi ei wneud yn 2018-2019



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2018-2019**.

Medi 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn ysgrifen **glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os oes unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifen **glas normal**. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl yn y Geiriau anodd ar dudalen 23.



Lle mae'r ddogfen yn dweud 'fi', mae hyn yn meddwl **Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Am ragor o fanylion cysylltwch gyda â:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd
Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1AT

Ffôn: 0292 167 7400

Gwefan: www.futuregenerations.wales

E-bost: contactus@futuregenerations.wales

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Am yr adroddiad yma.....	4
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.....	4
Beth rydw i wedi wneud y flwyddyn yma.....	6
1. Y sgiliau fydd pobl eu hangen yn y dyfodol.....	8
2. Tai.....	10
3. Cynllunio beth rydyn ni'n adeiladu yng Nghymru.....	12
4. Cadw pobl yn iach ac yn dda.....	13
5. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.....	15
6. Trafnidiaeth.....	16
7. Defnyddio llai o garbon.....	19
Gosod esiampl o gwmpas y byd.....	21
Edrychymlaen.....	22
Geiriau anodd.....	23

Am yr adroddiad yma

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru




Fy enw i ydy Sophie Howe. Fi ydy **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.



Fy ngwaith i ydy edrych ar ôl **cenedlaethau'r dyfodol**.

Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Ein plant a'n wyrion.



Yn 2016 dechreuodd deddf newydd yng Nghymru. Ei henw hi ydy **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Rydw i'n ei galw yn **Ddeddf** yn fyr.



Mae'r **Ddeddf** yn dweud bod rhaid i **gyrff cyhoeddus** feddwl am sut mae'r pethau maen nhw'n eu gwneud nawr yn gallu effeithio ar **lesiant** pobl yn y dyfodol.



Cyrff cyhoeddus ydy cyrff sydd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.



Llesiant ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd chi a'ch hapusrwydd chi.



Rydw i'n helpu **cyrff cyhoeddus** i feddwl am **genedlaethau'r dyfodol** pan maen nhw'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.




Dyma adroddiad byr am yr holl waith rydw i wedi ei wneud yn 2018 i 2019.

Beth rydw i wedi ei wneud y flwyddyn yma



Y flwyddyn yma roeddwn i'n hapus iawn i weld bod **cyrff cyhoeddus** yn meddwl am y **Ddeddf** pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau.




Maen nhw'n cymryd camau i wneud **llesiant** pobl yn well.

Mae mwy o **gyrff cyhoeddus** a chyrff wedi gofyn imi am gyngor. Mae 183 o grwpiau wedi gofyn imi am help. Yn cynnwys:

- Cymdeithasau tai
- Prifysgolion
- Elusennau



Roedden ni'n gallu cefnogi llawer o'r grwpiau yma gyda hyfforddiant a chynghor.



Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi ei wneud ar y 7 pwnc mwyaf pwysig.

Y 7 pwnc mwyaf pwysig ydy:



1. Y sgiliau fydd pobl eu hangen yn y dyfodol.



2. Tai.



3. Cynllunio beth rydyn ni'n adeiladu yng Nghymru.



4. Cadw pobl yn iach ac yn dda.



5. **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.**

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ydy pethau drwg sydd yn digwydd i chi pan rydych chi'n blentyn. Maen nhw'n gallu cael effaith ddrwg ar eich bywyd fel oedolyn.



6. Trafnidiaeth



7. Defnyddio llai o **garbon**.



Nwy ydy **carbon** sydd yn ddrwg i'r **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

1. Y sgiliau fydd pobl eu hangen yn y dyfodol



Mae angen inni feddwl am ba fathau o swyddi fydd yng Nghymru yn y dyfodol. A rhoi'r sgiliau y maen nhw angen i'w gwneud nhw i bobl.



Pan rydyn ni'n meddwl am hyn, mae angen inni feddwl am sut le rydyn ni eisiau i Gymru fod yn y dyfodol.



Er enghraifft, mae angen inni roi sgiliau i bobl i weithio mewn swyddi sydd yn helpu i leihau'r **carbon** rydyn ni'n ei ddefnyddio.



Mae angen inni hefyd wneud yn siŵr bod gan bawb yr un cyfle i gael sgiliau newydd. Ac mae angen inni feddwl am **lesiant** pobl.



Rydw i'n gweithio gydag **Ysgol Fusnes Caerdydd** i ysgrifennu cyngor. Fe fydd yn dweud beth ddylai **cyrff cyhoeddus** ei wneud i wneud yn siŵr bod gan eu staff nhw y sgiliau cywir.



Rydyn ni wedi rhedeg gweithdy i siarad am y pethau yma. Fe wnaethon ni wahodd pobl ifanc a hen.



Fe wnaethon ni roi cyngor i Lywodraeth Cymru am **dechnoleg digidol** a sgiliau.

Rydyn ni'n defnyddio **technoleg digidol** i gael a rhannu gwybodaeth. Er enghraifft y rhyngrwyd.

2. Tai



Rydw i wedi helpu Llywodraeth Cymru i feddwl am sut maen nhw'n rhoi arian i brosiectau adeiladu.



Maen nhw wedi cytuno â meddwl mwy am y **Ddeddf** pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau.




Rydw i hefyd wedi gweithio gyda'r **Panel Adolygu Tai Fforddiadwy**.




Fe wnes i ofyn iddyn nhw feddwl am anghenion pobl yng Nghymru. A beth fydd anghenion pobl yn y dyfodol.



Er enghraifft fe fydd gennym ni ragor o hen bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Oherwydd mae pobl yn byw yn hirach. A dydyn nhw ddim yn cael cymaint o blant.




Fe wnaeth y **Panel Adolygu Tai Fforddiadwy** ysgrifennu adroddiad am beth roedden nhw'n feddwl. Fe wnes i helpu gyda rhannau o'r cynllun yma. Maen nhw'n cytuno gyda'r **nodau llesiant** yn y **Ddeddf**.



Mae'r **nodau llesiant** yn dod o'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.



Rhestr ydy'r **nodau llesiant** o'r pethau fydd yn helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw yn y dyfodol.



Y flwyddyn yma, fe fyddaf i yn canolbwyntio ar roi cyngor i helpu **cyrff cyhoeddus** i ateb y nodau yma.



Fe fyddaf i hefyd yn gweithio gyda grŵp sydd yn ceisio gwneud i'r cartrefi sydd gennym ni yn barod wastraffu llai o ynni.

3. Cynllunio beth rydyn ni'n adeiladu yng Nghymru



Rydwi i wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddarau eu dogfennau cynllunio nhw. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod pobl yn defnyddio'r dogfennau yma pam maen nhw'n bwriadu adeiladu pethau.



Mae'n bwysig bod yr holl **gyrff cyhoeddus** a chyrff yn deall beth mae'r **Ddeddf** yn ddweud a beth mae'n rhaid iddyn nhw wneud.



Felly rydw i wedi gweithio gyda llawer o gyrff cynllunio fel **Cymorth Cynllunio Cymru** ac **Arolygiaeth Cynllunio Cymru**.



Rydwi i wedi eu helpu i feddwl am y **Ddeddf** pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau. Neu roi cyngor am beth mae pobl yn gallu adeiladu.



Oherwydd hyn mae'r Arolygiaeth Cynllunio wedi dweud na i beth gwaith adeiladu. Oherwydd dydyn nhw ddim yn ein helpu ni ateb ein **nodau llesiant**.

4. Cadw pobl yn iach ac yn dda



Rydw i wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i weithio gyda'r gwasanaethau iechyd. Nawr ac yn y dyfodol.




Mae byrddau iechyd a chyrff yn ysgrifennu cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys popeth maen nhw eisiau ei wneud yn y blynyddoedd nesaf.



Oherwydd y cyngor rydw i wedi ei roi, mae nifer o gyrff wedi cynnwys y **Ddeddf** yn eu cynlluniau nhw. Dyma'r cyrff:


- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cwm Taf
- Caerdydd a'r Fro
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.



Mae **Fframwaith Cynllunio GIG 2019-22** hefyd yn siarad am **genedlaethau'r dyfodol**.



Er enghraifft mae'n dweud na ddylai gwasanaethau iechyd aros tan mae pobl yn sâl i ddelio gyda'r problem. Fe ddylen nhw ganolbwyntio ar sut i stopio pobl rhag mynd yn sâl yn y dyfodol.



Dyma'r pethau da. Ond rydw i'n credu bod Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud rhagor i ateb nodau'r **Ddeddf**.



Pan maen nhw'n dewis prosiectau iechyd mae angen i Lywodraeth Cymru feddwl am sut y bydd y prosiect yn effeithio ar **genedlaethau'r dyfodol**.



Mae angen i Lywodraeth Cymru roi rhagor o arian hefyd i brosiectau iechyd sydd yn ceisio gwella **llesiant cenedlaethau'r dyfodol**.

5. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod



Mae'n bwysig bod pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yn deall **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**.



Y flwyddyn diwethaf fe wnes i weithio'n galed i ddweud wrth ragor o bobl am **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**. Rydw i wedi bod yn gweithio gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i wneud hyn.



Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ar gael ym mhob ardal yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud ar y **nodau llesiant**.



Mae'r **Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i newid y ffordd maen nhw'n gweithio. I ddeall a helpu rhagor o bobl gyda **Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**.



Y flwyddyn yma fe fyddaf i yn gweithio gyda **Bwrdd Iechyd Cwm Taf** i brofi syniadau newydd.



Fe fyddwn ni'n edrych ar ffyrdd newydd o wella **llesiant** i bobl gyda **Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**.

6. Trafnidiaeth




Roedd Llywodraeth Cymru yn gorfod penderfynu gwario dros £1 biliwn ar ffordd newydd neu beidio.



Roedd y ffordd i fod i leihau faint o draffig sydd ar draffordd yr M4.



Rydw i wedi bod yn gweithio gyda gwahanol grwpiau sydd yn astudio trafndiaeth. Doedden ni ddim yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru adeiladu'r ffordd newydd.



Fe wnaethon ni ddweud hyn yn yr adroddiad **Trafnidiaeth Addas i Genedlaethau'r Dyfodol.**



Fe wnaeth ein cyngor ni helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu peidio adeiladu'r ffordd newydd.



Mae'r **ddeddf** yn dweud sut mae **cyrff cyhoeddus** i fod i wella trafnidiaeth. Mae angen iddyn nhw:



- Lleihau faint o **garbon** sydd yn cael ei ryddhau.



- Gwneud yn siŵr bod trafnidiaeth yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl hawdd i'w ddarganfod, cyrraedd a defnyddio.



- Helpu i wneud yr aer yn fwy glân.



- Helpu pobl i deithio mewn ffordd egniol. Fel cerdded neu seiclo.



Rydw i'n poeni nad ydy'r bobl sydd yn ysgrifennu cyngor trafnidiaeth i Lywodraeth Cymru ddim yn gweithio gyda'r **Ddeddf**.



Rydw i wedi dweud yn glir bod rhaid iddyn nhw ddechrau eto os ydyn nhw'n ysgrifennu cynllun heb ddefnyddio'r **Ddeddf**.



Er bod angen i hyn wella, mae llawer o bethau yn dod yn dda.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddewis cwmni o'r enw **Keolis Amey** i redeg gwasanaethau trên Cymru.



Mae'r cwmni wedi dweud y byddan nhw'n rhedeg y gwasanaethau mewn ffordd sydd yn gweithio tuag at y **nodau llesiant**.



Rydw i wedi gweithio gyda **Thrafnidiaeth i Gymru** a **Keolis Amey** i'w cefnogi nhw i wneud hyn.

7. Defnyddio llai o garbon



Nwy ydy **carbon** sydd yn ddrwg i'r **amgylchedd**. Mae'n achosi **newid hinsawdd**.



Newid hinsawdd ydy beth sydd yn digwydd pan mae'r byd yn cynhesu oherwydd y nwyon rydyn ni'n eu defnyddio. Mae'n meddwl ein bod ni'n cael rhagor o ddigwyddiadau tywydd peryglus fel llifogydd a stormydd.



Yn 2018, fe ddywedais i fod angen i Lywodraeth Cymru:

- Meddwl am y **Ddeddf** mewn cynlluniau i leihau lefelau **carbon**.




- Gweithio yn fwy cyflym i leihau faint o **garbon** rydyn ni'n ei ddefnyddio



- Meddwl am **Gytundeb Paris**. Dyma pryd y gwnaeth 196 o wledydd gytuno ar derfyn ar faint y mae'r byd yn gallu cynhesu.



Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen inni ddefnyddio llai o **garbon**. A'i roi fel nod yn eu cynllun nhw o'r enw **Ffyniant i Bawb**.




Rydw i wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru hefyd ar eu **Cynllun ar gyfer Cymru Carbon Isel**.



A dweud bod angen inni roi llawer mwy o arian tuag at ymladd **newid hinsawdd**.

Gosod esiampl o gwmpas y byd



Cymru ydy'r unig le yn y byd sydd â'r **Ddeddf**.



Rydw i wedi siarad mewn cyfarfod o'r **Cenhedloedd Unedig** yn Efrog Newydd. Ac yn **Uwchgynhadledd Llywodraethau'r Byd** yn yr **Emiraethau Arabaidd Unedig**.



Oherwydd hyn mae'r **Emiraethau Arabaidd Unedig** wedi ysgrifennu cynllun **llesiant** wedi ei seilio ar ein **Deddf**.



Rydw i hefyd yn gweithio gyda llywodraethau mewn gwledydd eraill fel:

- Seland Newydd
- Yr Iseldiroedd
- Gibraltar
- Y DU

Edrych ymlaen



Os ydych chi eisiau cymryd rhan yn ein gwaith ni cysylltwch os gwelwch yn dda gan ddefnyddio'r wybodaeth ar dudalen 2.



Rydyn ni hefyd yn ysgrifennu newyddlen bob mis. Rhowch wybod inni os ydych chi eisiau derbyn hon.



Mae gennym ni lawer rhagor o waith i'w wneud. Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda phobl y flwyddyn nesaf i wneud i newid ddigwydd.



Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Geiriau Anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael ym mhob ardal yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud ar y nodau llesiant.

Carbon

Nwy ydy carbon sydd yn ddrwg i'r amgylchedd.

Cenedlaethau'r dyfodol

Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl sydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Ein plant a'n wyrion.

Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus ydy cyrff sydd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

Llesiant

Llesiant ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.

Newid hinsawdd

Newid hinsawdd ydy beth sydd yn digwydd pan mae'r byd yn cynhesu oherwydd y nwyon rydyn ni'n eu defnyddio. Mae'n meddwl ein bod yn cael rhagor o ddigwyddiadau tywydd peryglus fel llifogydd a stormydd.

Nodau llesiant

Mae'r nodau llesiant yn dod o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhestr ydy'r nodau llesiant o bethau a fydd yn helpu i wneud Cymru yn wlad well i fyw ynddi yn y dyfodol.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ydy pethau drwg sydd yn digwydd i chi pan rydych chi'n blentyn. Maen nhw'n gallu cael effaith ddrwg ar eich bywyd fel oedolyn.

Technoleg digidol

Rydyn ni'n defnyddio technoleg digidol i gael a rhannu gwybodaeth. Er enghraifft y rhyngrwyd.